



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022

Dyddiad cyhoeddi: 1 Gorffennaf 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 9 Awst 2019

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022.

Sut i ymateb

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 9 Awst 2019. Gallwch ymateb ar-lein, dros e-bost neu drwy'r post.

Ar-lein

A fydddechystal â llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru.

E-bost

Dylech lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i: Substance.Misuse@gov.wales

Post

Dylech lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd at:

Y Tîm Polisi a Chyflawni ar gyfer Camddefnyddio
Sylweddau
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Y Tîm Polisi a Chyflawni ar gyfer Camddefnyddio
Sylweddau
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: Substance.Misuse@gov.wales

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhoch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cyflwyniad

Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Llywodraeth Cymru, ac mae'n faes pwysig y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio arno os ydym am wireddu ein huchelgeisiau yn *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Mae camddefnyddio sylweddau yn broblem iechyd fawr sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac mae'r cynllun hwn yn nodi'r meysydd â blaenoriaeth y byddwn ni'n canolbwyntio arnynt gyda'n partneriaid er mwyn cyflawni ein huchelgais o leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Mae'r *Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022* yn adeiladu ar y cynnydd da a wnaed yn ystod oes strategaeth flaenorol 2008-2018, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed*. Nod cyffredinol y cynllun cyflawni yw sicrhau bod pobl yng Nghymru yn ymwybodol o'r peryglon a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, ac yn gwybod ble y gallant gael gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth os oes angen.

Mae'r cynllun cyflawni yn cynnwys nifer o gamau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol. Cafodd y rhain eu datblygu yn dilyn proses cyn ymgynghori, ynghyd â chanfyddiadau'r gwerthusiad o strategaeth 2008-18 (a gyhoeddwyd fis Ebrill 2018) a chanfyddiadau Adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau (a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2018).

Ochr yn ochr â'r camau gweithredu a amlygwyd yn y cynllun, rydym hefyd wedi amlinellu meysydd blaenoriaeth pwysig lle credwn bod angen gwneud mwy o waith er mwyn parhau i wneud cynnydd ar gyfer y bobl hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Bydd y meysydd hyn yn cynnwys gweithio ar draws y Llywodraeth a gyda phartneriaid allweddol, yn arbennig Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.

Bydd bwrdd rhaglen mewnol a Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol allanol yn monitro cynnydd Llywodraeth Cymru yn erbyn y camau gweithredu o fewn y cynllun cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn dal Byrddau Cynllunio Ardal a sefydliadau eraill i gyfrif mewn perthynas â'u hymrwymiaidau o fewn y cynllun cyflawni.

Caiff adroddiad blynyddol hefyd ei gyhoeddi yn edrych ar y cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni, ac adroddiad blynyddol yn edrych ar ystadegau a mynychder.

Cefndir

Cafodd gwerthusiad o Strategaeth 2008-18¹, a gynhaliwyd gan *Figure 8 Consultants*, ei gyhoeddi fis Ebrill 2018. Yn dilyn gwaith maes ac ymgynghori eang gydag amrywiaeth o randdeiliaid, nododd y gwerthusiad y dylai'r polisïau newydd ganolbwyntio ar barhau i roi cymorth er mwyn lleihau niwed ac atebolrwydd defnyddiol o ran gweithgareddau, waeth i ba gyfeiriad y byddai polisïau yn mynd yn y dyfodol. Yn yr adroddiad hefyd, pwysleisiwyd bod yn rhaid i unrhyw ffyrdd o weithio a ddefnyddir yn y dyfodol wrth ymdrin â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, barhau i ddatblygu'r gwelliannau sylweddol a welwyd yn ystod strategaeth 2008-18 wrth weithio mewn partneriaeth.

Yn yr adroddiad, nodwyd pa mor bwysig yw parhau i ddatblygu rôl defnyddwyr gwasanaeth ar draws pob agwedd ar weithredu polisïau ac arferion. Yn y gwerthusiad, cadarnhawyd

¹ https://llyw.cymru/adolygiad-o-gweithio-gydan-gilydd-i-leihau-niwed-strategaeth-camddefnyddio-sylweddau-2008-2018?_ga=2.177544037.1716764299.1561470586-832368275.1548154346

bod y Prif Nodau o atal niwed; cynorthwyo camddefnyddwyr sylweddau i wella'u hiechyd a rhoi cymorth iddynt ymadfer a dal ati; cynorthwyo ac amddiffyn teuluoedd; a mynd i'r afael ag argaeledd ac amddiffyn unigolion a chymunedau drwy weithgarwch gorfodi, a oedd yn sail i'r strategaeth flaenorol yn parhau i fod yn berthnasol. Felly, er bod y cynllun cyflawni hwn yn nodi blaenoriaethau a chymau gweithredu newydd ar gyfer 2019-2022 er mwyn mynd i'r afael â heriau heddiw, mae'n gwneud hynny o fewn cyd-destun themâu allweddol y strategaeth 10 mlynedd flaenorol, ac yn parhau â'r themâu allweddol hynny.

Rhywbeth arall sy'n dylanwadu ar flaenoriaethau a chymau gweithredu'r dyfodol yn y cynllun cyflawni hwn yw Adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru² (a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2018). Ynddo, nodwyd bod pobl wedi derbyn gofal effeithiol o ansawdd da, ond gwnaed argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach. Mae ein blaenoriaethau allweddol a nodwyd yn y cynllun cyflawni hwn yn ymateb i nifer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwnnw, yn ogystal â mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid.

Yn y misoedd cyn datblygu Cynllun Cyflawni 2019-2020, cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgysylltu gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau yng Nghaerdydd, Casnewydd, Llanelli a Llandudno. Cynhaliwyd digwyddiad ychwanegol hefyd ym Mhowys, ynghyd â digwyddiad penodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau yn ardal Cwm Taf, a digwyddiad penodol gyda phobl ifanc yn y Gorllewin. Yn sgil y digwyddiadau ymgysylltu hyn, roedd dros 400 o bobl yn gallu cyfrannu eu safbwyntiau ar y strategaeth flaenorol a blaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Byddem yn croesawu eich adborth a'ch safbwyntiau ar y *Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022* ac rydym wedi cynnwys rhai cwestiynau penodol y byddwn yn gofyn i chi eu hateb. Gallwch weld y cwestiynau ar-lein ar y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad.

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/180725smen.pdf>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022

“Gwella bywydau i bobl a chymunedau yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau”

Rhagair y Gweinidog

Mae'n bleser gennyf lansio'r ymgynghoriad ar ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae'n faes pwysig y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio arno os ydym am wireddu ein huchelgeisiau yn *Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Mae camddefnyddio sylweddau yn broblem iechyd fawr sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac mae'r cynllun hwn yn nodi'r meysydd â blaenoriaeth y byddwn yn canolbwyntio arnynt gyda'n partneriaid er mwyn cyflawni ein huchelgais i leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y cynnydd da a wnaed yn ystod oes strategaeth flaenorol 2008-18. Mae'r gwerthusiad o'n strategaeth flaenorol, ynghyd ag adolygiad annibynnol gan yr Arolygiaeth Iechyd (AGIC) o wasanaethau, yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud ar y cyfan ond bod angen gwneud mwy. Rydym wedi cyflawni llawer wrth wynebu heriau fel adnoddau tynn a natur camddefnyddio sylweddau sy'n newid o hyd, ac rwyf yn gwbl ymrwymedig i barhau i gefnogi'r agenda hon.

Ein nod cyffredinol yn y cynllun cyflawni hwn yw parhau i sicrhau bod pobl Cymru yn ymwybodol o beryglon ac effeithiau camddefnyddio sylweddau ac yn gwybod o le i gael gwybodaeth, help a chefnogaeth os bydd eu hangen arnynt. Darperais gyllid ychwanegol i gefnogi camddefnyddio sylweddau pan wneuthum gyhoeddi £2.4 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2019/20 ar gyfer y saith bwrdd cynllunio ardal sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau rheng flaen lleol. Mae hwn yn gynnydd o fwy na 10% mewn cyllid. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi'i ddarparu yn ystod cyfnod o gyfyngiadau cyllidebol, ac mae'n golygu nawr y gallwn gefnogi ein partneriaid gydag arian ychwanegol i ateb heriau'r dyfodol. Mae'r cynnydd hwn mewn buddsoddiad yn golygu bod ein cyllid blyneddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau bron yn £53 miliwn, sy'n dangos ymrwymiad y llywodraeth hon i gefnogi rhai o bobl fwyaf agored i niwed ein cymdeithas.

Er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, mae angen ymrwymiad gan bob rhan o'r llywodraeth a chan ein partneriaid sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ac yn cefnogi pawb sydd mewn angen, fel y gallant gael y lefel gywir o gymorth, ar yr adeg gywir ac yn y man cywir. Mae ein dull o leihau niwed wedi cael canmoliaeth eang, ond gwyddom fod angen gwneud mwy i gefnogi pobl a'u helpu nhw i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae taelo achosion ac effeithiau camddefnyddio sylweddau yn heriol ac yn gymhleth, ac mae'r cynllun hwn yn dangos y byddwn yn parhau i weithio'n agos â phartneriaid ar lefel genedlaethol a lleol er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd camau ataliol a dull gweithredu integredig a hirdymor i wella'r canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn.

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Cyd-destun strategol

Mae ein Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, yn amlinellu'r ymrwymïadau i lywio gwelliannau a gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pawb yng Nghymru. Mae *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* yn cymryd yr ymrwymïadau hynny, yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor, ac yn nodi sut byddant yn cael eu cyflawni drwy gyfuno ymdrechion holl sector cyhoeddus Cymru.

Un o brif themâu *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, i unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu ni i gyflawni ein huchelgais o gael ffyniant i bawb, drwy gymryd camau mawr i symud ein dull gweithredu o drin i atal.

Fis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.³ Mae'r cynllun yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r deg egwyddor gynllunio genedlaethol. Mae'r weledigaeth a'r egwyddorion mor berthnasol i'r sector camddefnyddio sylweddau ag y maen nhw i unrhyw faes arall. Mae ein hagenda ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn gofyn i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd, ochr yn ochr â phartneriaid eraill, i roi'r help mwyaf priodol i unigolyn, ar sail ei anghenion a'i amgylchiadau. Mae'r cynllun hwn yn ymdrin â gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn canolbwyntio ar y dinesydd, gan fabwysiadu dull iechyd cyhoeddus seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar leihau niwed, atal a thriniaeth, gan sicrhau bod unigolyn yn cadw'n iach, yn lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac yn cynnal adferiad.

Mae *Cymru Iachach* yn nodi dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan amlinellu system 'lesol' sydd â'r nod o gynorthwyo a rhagweld anghenion iechyd, er mwyn atal anhwylderau a lleihau effaith iechyd gwael ac anghydraddoldeb. Cydnabyddir bod gan ofal sylfaenol, fel pwynt cyswllt cyntaf y rhan fwyaf o ddinasyddion sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd, rôl allweddol mewn cyflwyno cymaint â phosibl o gyfleoedd i atal a hunanreoli, gan gynnwys cyfleoedd o ran camddefnyddio sylweddau a rheoli meddyginiaethau.

Er mwyn cyflawni'r nod uchelgeisiol hwn, mae'n bwysig ein bod yn parhau i fabwysiadu dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau a chymorth sy'n gweld yr angen i ddiwallu anghenion yr unigolyn cyfan. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i wella ac yn fwy integredig er mwyn diwallu anghenion unigol yn ddi-dor. Nodir ein gweledigaeth, sy'n cyd-fynd â *Cymru Iachach*, isod:

³ <https://gweddi.gov.wales/topics/health/publications/healthier-wales/?skip=1&lang=cy>

“Ein gweledigaeth yw y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach ac iachach, sy'n rhydd rhag niweidiau posibl camddefnyddio sylweddau, gan adeiladu gwydnwch personol fel y gallant fod yn egnïol a chyfrannu'n gadarnhaol i'w cymunedau.”

Bod gan bobl fywyd iach sy'n rhydd o niweidiau

Bod pobl yn cael eu trin â pharch, waeth beth yw eu hamgylchiadau a chefnidir

Bod gan bobl ddewisiadau yn eu hadferiad

atal niwed

cymorth i unigolion –
i wella eu hiechyd a
chynorthwyo a
chynnal eu hadferiad

cefnogi a diogelu
teuluoedd

mynd i'r afael ag
argaeledd a diogelu
unigolion a
chymunedau

partneriaethau
cryfach, datblygu'r
gweithlu a chynnwys
defnyddwyr
gwasanaethau

Bod pobl yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus
er mwyn atal a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â
chamddefnyddio sylweddau

Bod problemau camddefnyddio sylweddau yn
cael eu hadnabod a'u trechu'n gynnar

Bod iechyd corfforol a meddyliol a llesiant pobl â
phroblemau camddefnyddio sylweddau yn
gwella a bod cyn lleied â phosibl o
anghydraddoldebau iechyd perthnasol

Bod unigolion a chymunedau yn ymhél yn
effeithiol yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi eu
gwasanaethau camddefnyddio sylweddau lleol

Bod gan bobl â phroblemau camddefnyddio
sylweddau y sgiliau, y gwydnwch a'r cyfleoedd i
ennill a chadw annibyniaeth economaidd, a bod
effaith negyddol camddefnyddio sylweddau ar
economy Cymru yn cael ei lleihau

Bod pobl â phroblemau camddefnyddio
sylweddau yn cymryd rhan mewn
gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol
amrywiol, gan gynnwys y celfyddydau,
chwaraeon a hamdden

Bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan problemau
camddefnyddio sylweddau yn cael eu trin ag
urddas, tegwch a pharch

Bod allgáu cymdeithasol ac ynysiad o ganlyniad i
gamddefnyddio sylweddau yn cael eu lleihau
Bod niweidiau camddefnyddio sylweddau yn cael
eu lleihau i blant a theuluoedd
Bod canlyniadau i blant ar ffiniau gofal neu mewn
gofal yn gwella

Bod pobl yn fwy diogel / yn teimlo'n fwy diogel
mewn perthynas â throedd


Bod siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd yn gallu
derbyn cymorth ar gyfer problemau
camddefnyddio sylweddau yn eu hiaith eu hunain

Bod Byrddau Cynllunio Ardal yn barod at y
dyfodol

Bod y gweithlu camddefnyddio sylweddau yn
fedrus ac yn wybodus

Bod cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn cael
ei ymwreiddio yn y gwaith o gyflenwi a
chynllunio gwasanaethau

Bydd ein gwaith ar gamddefnyddio sylweddau yn cael ei wneud o dan y themâu a'r canlyniadau a nodir uchod. Mae'r Cynllun Cyflawni hwn hefyd yn egluro sut mae lleihau camddefnyddio sylweddau yn cyd-fynd â'r Nod Pedwarplyg o fewn *Cymru Iachach*. Nodir y Nod Pedwarplyg isod:



2. Lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau

Nod trosfwaol Llywodraeth Cymru yw lleihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau i'r unigolyn a'r gymdeithas ehangach. Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn allweddol, felly byddwn yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o beryglon ac effeithiau camddefnyddio sylweddau, er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth a gwybod o le gallant gael help a chefnogaeth os oes angen.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac rydym wedi sicrhau bod y canlyniadau camddefnyddio sylweddau yr ydym yn ceisio eu cyflawni yn ystod oes y cynllun hwn yn eglur o ran eu cyfraniad tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Trwy gydol y blaenoriaethau a'r ymrwymïadau a nodir yn y cynllun hwn, canolbwyntir ar gael effaith **hirdymor** ar unigolion a theuluoedd, ac mae llawer o'r gwaith sydd angen ei wneud yn canolbwyntio ar **atal** camddefnyddio sylweddau. Mae Nod Allweddol 1 yn y tabl o gamau gweithredu yn canolbwyntio'n benodol ar atal, ond mae gan lawer o'r camau gweithredu yn y nodau eraill drwy'r ddogfen elfen ataliol hefyd. Er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn y ffordd fwyaf effeithiol, bydd **cydweithio**, **cynnwys** ac **integreiddio** yn hanfodol. Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wedi bod

yn allweddol wrth ddatblygu'r cynllun hwn, a gwyddom y bydd parhau i gynnwys pobl yn allweddol i gyflawni'r camau gweithredu o fewn y cynllun hwn yn llwyddiannus.

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod ein gwasanaethau yn darparu ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol, fel bod niweidiau mwy hirdymor yn cael eu hatal cyn iddynt ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys atal cysylltiad â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.⁴ Mae mwy a mwy o dystiolaeth ryngwladol yn dod i'r amlwg o'r effaith negyddol hirdymor ar ganlyniadau iechyd a llesiant a all ddod yn sgil cysylltiad â thrawma cyn 18 oed. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cysylltu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod â risg uwch o fabwysiadu ymddygiadau niweidiol i iechyd yn ystod blaenlencyndod, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau. Felly mae camddefnyddio sylweddau yn broblem ac yn ffactor risg. Mae plant y rhai hynny yr effeithiwyd arnynt gan brofiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod mewn mwy o risg o roi eu plant eu hunain mewn cysylltiad â phrofiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod hwythau, gan greu cylch o niwed, ac mae angen i ymyrraeth gynnar ganolbwyntio ar dorri'r cylch hwnnw.

Ein hegwyddor sylfaenol yw bod camddefnyddio sylweddau yn broblem iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar holl boblogaeth Cymru, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar yr economi ac ar wasanaethau, iechyd, bywyd cymdeithasol a chyfiawnder unigolion a chymunedau. Er mai atal camddefnyddio sylweddau yn y lle cyntaf yw'r brif flaenoriaeth, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cymryd camau hefyd i leihau effaith negyddol camddefnyddio sylweddau a gwella'r canlyniadau cadarnhaol i bawb yr effeithir arnynt. Yr unig ffordd o gyflawni hyn yw drwy fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd camddefnyddio sylweddau a thrwy roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen ar bobl i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Y nod yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at wasanaethau teg, effeithiol a chosteffeithiol a bod polisïau economaidd a chymdeithasol ehangach yn cael eu hintegreiddio drwy weithio ar draws y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach. Dylid cynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb, waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau.

Gall camddefnyddio sylweddau achosi lliaws o niweidiau, i'r unigolyn ac i'r rhai hynny sydd mewn cysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r sawl sy'n defnyddio'r sylweddau, fel aelodau o'r teulu neu'r gymdeithas yn gyffredinol. Gall y niweidiau hyn gynnwys dirywiad mewn iechyd corfforol a meddyliol a marwolaeth gynnar o ganlyniad i hyn, diffyg gwaith, gamblo gormod, colli tŷ, perthynas deuluol yn chwalu, a chanlyniadau niweidiol i'r gymuned ehangach mewn perthynas â gweithgarwch troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwyddom fod pobl sy'n cyflenwi cyffuriau yn cael effaith sylweddol ar y rhai hynny y maent

⁴ Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynnwys camarfer (fel camdriniaeth gorfforol, rywiol ac ar lafar) a phrofiadau ehangach o broblemau yn y cartref (fel magwraeth mewn cartref a effeithiwyd gan drais domestig, rhieni'n gwahanu, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl neu ymddygiad troseddol).

yn eu cyflenwi ac ar y gymuned ehangach, fel y trais sy'n gysylltiedig â gangiau yn aml, heb sôn am bethau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir fod yn rhaid i leihau niwed barhau i fod yn ganolog i'n dull gweithredu. Mae dull gweithredu sy'n lleihau niwed yn ceisio lleihau'r risgiau perthnasol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Gwnaethom weithio'n agos â rhanddeiliaid dros oes strategaeth 2008-18 i sefydlu a chyflenwi amrediad o fentrau lleihau niwed. Mae rhaglenni lleihau niwed yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer y rhai hynny sy'n camddefnyddio sylweddau neu'r rhai hynny a effeithir gan gamddefnyddio sylweddau, a gellir eu hystyried fel pwynt ymgysylltu i annog a galluogi unigolion i gael triniaeth pan fo angen.

3. Datblygiadau diweddar

Cafodd dadansoddiad cyfrannu (gwerthusiad) o Strategaeth 2008-18,⁵ a gynhaliwyd gan Figure 8 Consultants, ei gyhoeddi fis Chwefror 2018. Yn dilyn gwaith maes trylwyr ac ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid, nododd y gwerthusiad y dylai polisïau newydd, waeth pa gyfeiriad y byddent yn mynd yn y dyfodol, ganolbwyntio ar barhau i gefnogi gwaith lleihau niwed a rhoi atebolrwydd defnyddiol o weithgarwch. Gwnaeth yr adroddiad hefyd amlygu pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ddulliau gweithredu yn y dyfodol sy'n ymdrin â'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn parhau i ddatblygu'r gwelliannau sylweddol a welwyd yn ystod strategaeth 2008-18 wrth weithio â phartneriaid.

Pwysleisiodd yr adroddiad bwysigrwydd adeiladu ar y gwaith o roi mwy o rôl i ddefnyddwyr gwasanaethau ar draws pob agwedd ar weithredu polisïau ac arferion. Cadarnhaodd y gwerthusiad mai'r nodau allweddol o atal niwed oedd: cefnogi unigolion – er mwyn gwella eu hiechyd a helpu a chynnal adferiad; cefnogi a diogelu teuluoedd; a mynd i'r afael ag argaeledd a diogelu unigolion a chymunedau drwy sicrhau bod y gweithgarwch gorfodi a oedd yn sylfaen i'r strategaeth flaenorol yn parhau i fod yn berthnasol. Felly, er bod y cynllun cyflawni hwn yn nodi blaenoriaethau a chymau gweithredu newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2022 sydd wedi'u cynllunio i wynebu heriau heddiw, mae'n gwneud hynny o fewn cyd-destun a pharhad prif themâu'r strategaeth deng mlynedd flaenorol.

Mae adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru (a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2018) wedi bod yn ddylanwad arall ar flaenoriaethau a chymau gweithredu'r dyfodol yn y cynllun cyflawni hwn. Amlygodd hwn fod pobl yn derbyn gofal effeithiol o ansawdd da, ond cyflwynodd argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach. Mae'r prif flaenoriaethau a amlygwyd gennym yn y cynllun hwn yn ymateb i'r lliaws o broblemau a godwyd yn yr adroddiad hwnnw, yn ogystal â'r mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid.

⁵ https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-broses-o-weithredu-strategaeth-camddefnyddio-sylweddau-cymru?_ga=2.132477896.713340868.1560420022-915068226.1529345489

4. Graddfa'r problem a thueddiadau mewn data ac ystadegau triniaeth

Gwyddom fod angen gwneud mwy i gefnogi pobl a'u helpu i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt er mwyn gwella'r canlyniadau i'r rhai hynny y mae eu bywydau yn cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Er enghraifft, o ran marwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau, er y croesawir y gostyngiad bychan cyffredinol mewn marwolaethau rhwng 2016 a 2017 (o 192 i 185), mae 185 o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn parhau i fod yn ormod o bobl sy'n marw'n ddiangen yn ein cymunedau. Mae gofid penodol ynghylch yr amrywiadau rhanbarthol sy'n bodoli o ran marwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau, ac mae'n amlwg fod yn rhaid i ni, drwy weithio gyda'n partneriaid, ganolbwyntio cryn dipyn o ymdrech ar hyn yn y dyfodol.

Mae'r nifer sy'n yfed mwy o alcohol nag yr awgrymir yng Nghymru wedi disgyn ychydig, ond mae 18% o oedolion yn parhau i yfed mwy na'r canllawiau wythnosol, gyda phobl rhwng 35 a 74 yn fwy tebygol o fod yn yfed mwy na'r canllawiau. Dengys y data diweddaraf o ran marwolaethau a achoswyd gan alcohol yn benodol gynnydd o 388 yn 2016 i 419 yn 2017. Yn ogystal, mae nifer yr unigolion a dderbyniwyd i'r ysbyty oherwydd cyflyrau a oedd yn ymwneud ag alcohol yn benodol 2.4 gwaith yn uwch na'r derbyniadau yn sgil defnyddio cyffuriau anghyfreithlon. O ran amddifadedd, er bod y lefelau yfed yn uwch yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, roedd cyfran yr holl gleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty gyda chyflyrau a oedd yn benodol i alcohol 3.3 gwaith yn uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig nag oeddent yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Mae derbyniadau ysbyty ar gyfer cyflyrau penodol i alcohol a chyffuriau anghyfreithlon yn rhoi pwysau sylweddol ar y GIG, a dengys yr ystadegau fod dros 20,000 o dderbyniadau ysbyty yn ystod 2017-19 a oedd yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol.

Fodd bynnag, rydym yn gweld gwelliannau cadarnhaol parhaus mewn amserau aros am driniaeth, gyda 90.9% o bobl yn derbyn gwasanaethau o fewn 20 diwrnod gwaith yn 2017-18 o'u cymharu ag 86.7% yn 2016-17, sy'n ostyngiad o fwy na phedwar pwynt canran. Mae canlyniadau'r rhai hynny sy'n cael triniaeth wedi gwella, gydag 86.5% o bobl yn nodi eu bod yn camddefnyddio sylweddau llai ar ôl triniaeth yn 2017-18, o'u cymharu ag 85.9% yn 2013-14. Er y croesewir y gwelliannau hyn, mae hwn yn faes rydym eisiau bod yn fwy uchelgeisiol o'i fewn, drwy geisio cael gwared ag unrhyw amrywiaethau mewn amserau cael triniaeth drwy wella'r mynediad i wasanaethau a thrwy gamau gweithredu fel cynyddu gwasanaethau allgymorth neu ehangu amserau agor gwasanaethau, yn enwedig gan ystyried yr ystadegau diweddar ar farwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau a marwolaethau penodol i alcohol.

Mae'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn felly yn ymateb i'r hyn a ddywedwyd wrthym drwy'r gwerthusiad o'r strategaeth flaenorol ac adolygiad AGIC. Mae hefyd yn ystyried yr adborth a dderbyniwyd drwy'r broses ymgysylltu drylwyr yr ydym wedi'i chynnal

â darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl ifanc, ar y prif flaenoriaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

5. Cyflawni ac ariannu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

Ledled Cymru, mae'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal yn gyfrifol am asesu'r angen, comisiynu a monitro cyflenwad gwasanaethau camddefnyddio sylweddau o fewn eu hardaloedd, gan ddefnyddio'r cyllid a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni hwn, byddwn yn parhau â'n gwaith o gefnogi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau drwy ein Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Iechyd Lleol. Mae Byrddau Cynllunio Ardal wedi bod yn allweddol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a hyn fydd yr achos o hyd. Rydym wedi cynyddu ein cyllid i gefnogi Byrddau Cynllunio Ardal dros 10% yn ystod 2019/20 er mwyn eu helpu i wneud y gwaith hwn. Yn ystod 2019/20, rydym yn buddsoddi bron i £53 miliwn yn flynyddol i gyflawni ein hymrwymadau ar yr agenda hon. Felly, rydym yn disgwyl i bob Bwrdd Cynllunio Ardal adolygu ei wasanaethau er mwyn sicrhau bod ganddo'r adnoddau priodol, ei fod yn diwallu anghenion y boblogaeth gyfredol, a'i fod yn ailgomisiynu yn ôl yr angen.

Bydd ein gwaith gyda Byrddau Cynllunio Ardal yn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth, a bod y dangosyddion perfformiad allweddol yn parhau i gael eu cyflawni a'u gwella. I gyflawni hyn, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein hymyriadau yn 'gydgysylltiedig' ar draws y llywodraeth, gan gydnabod bod anghenion unigolion yn mynd y tu hwnt i'w defnydd o sylweddau, drwy ddatblygu dull gweithredu unigolyn cyfan i'w cefnogi.

6. Dull gweithredu trawslywodraethol

Dros gyfnod y cynllun, bydd y cynllun cyflawni hwn yn darparu ffocws ar gyfer sicrhau bod camddefnyddio sylweddau yn cael ei ymwreiddio ar draws meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â meysydd Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyflogadwyedd, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Trechu Tlodi, a Throsedd a Chyfiawnder er mwyn cryfhau'r cysylltiadau â'r meysydd hyn. Mae camau gweithredu penodol wedi'u nodi yn y cynllun hwn, sy'n amlygu'r cyfraniad pwysig y gall adrannau eraill o'r llywodraeth, gan gynnwys meysydd heb eu datganoli, ei wneud i wella canlyniadau camddefnyddio sylweddau i unigolion drwy eu polisiau a'u rhaglenni. Er bod gwasanaethau iechyd wedi'u cynllunio i ymateb i anghenion unigolion sy'n dioddef o gamddefnyddio sylweddau, mae ysgogiadau eraill y tu allan i faes iechyd sy'n hanfodol i wella iechyd a llesiant unigolyn.

Mae llawer o fentrau ar waith – neu y bwriadir iddynt gael eu gwneud – ar draws Llywodraeth Cymru a fydd yn cefnogi'r agenda camddefnyddio sylweddau, ac yn gwneud

buddsoddiad sylweddol o ran adnoddau. Un o'r meysydd y gwelir hyn yw drwy'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud i ddatblygu **dull ysgol gyfan** o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fel rhan o'r **dull ysgol gyfan**, bydd pob ysgol yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant ehangach dysgwyr a bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i atal problemau eraill rhag datblygu neu waethygu, gan gynnwys problemau camddefnyddio sylweddau.

7. Gweithio mewn partneriaeth

Mae gwaith partneriaeth da yn hanfodol os ydym am gynnig y cymorth gorau posibl i unigolion a chymunedau. Gan ystyried y datblygiadau diweddar yn nhirwedd partneriaethau lleol a rhanbarthol, fel sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, byddwn yn adolygu'r cydberthnasau partneriaeth ac yn ystyried sut y gallwn gefnogi Byrddau Cynllunio Ardal i weithredu'n dda o fewn y rhain. Rydym yn sylweddoli bod cael Byrddau Cynllunio Ardal i weithio'n agos gyda phartneriaid a strwythurau eraill, fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a strwythurau eraill, yn elfen allweddol o gyflenwi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl i'r unigolyn a'r gymuned ehangach.

Yn genedlaethol, byddwn yn sicrhau bod ymgyrchoedd wedi'u targedu yn cael eu trefnu ar faterion allweddol mewn ymateb i wybodaeth am ddata ar farwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau a marwolaethau sy'n ymwneud ag alcohol y byddwn yn ei derbyn gan lechyd Cyhoeddus Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a ffynonellau eraill. Fel rhan o'n ffocws ar leihau niwed, byddwn hefyd yn parhau i gyflwyno naloxone (cyffur sy'n gwrthdroi effeithiau gorddosio ar opiadau dros dro) ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau ei fod ar gael mewn cymaint â phosibl o leoliadau priodol.

8. Cynllun Cyflawni 2019-22

Nodir yr ymrwymadau manwl sy'n ffurfio'r cynllun cyflawni newydd isod. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o dan bedwar nod allweddol y strategaeth flaenorol, gan ystyried y cadarnhad o'r gwerthusiad fod y rhain yn parhau i fod yn berthnasol wrth i ni geisio atal a thacio'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Cafodd hwn ei brofi mewn digwyddiadau ymgysylltu cyn y cyhoeddwyd y cynllun ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Trwy gydol y broses ymgysylltu, yr adborth cyffredinol a gafwyd oedd bod y pedwar prif nod allweddol, lle y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wedi gwneud gwaith i daclo a lleihau'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru, yn parhau i fod yn briodol iawn o ran y dyfodol. Roedd y nodau hyn fel a ganlyn:

- atal niwed;
- cefnogi unigolion – er mwyn gwella eu hiechyd a helpu a chynnal adferiad;
- cefnogi a diogelu teuluoedd; a

- mynd i'r afael ag argaeledd a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgarwch gorfodi.

Hefyd, credwyd bod y pumed nod allweddol o ran gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol hefyd ac yn un o lwyddiannau'r strategaeth flaenorol. Mae hyn yn rhywbeth y bydd y gwaith i ddod a nodir yn y cynllun hwn yn seiliedig arno. Byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein gweithlu camddefnyddio sylweddau ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ymhellach, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y nod allweddol hwn.

Fel yr amlygwyd ynghynt yn y ddogfen hon, mae *Cymru Iachach* yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wrth fynd ymlaen ac mae ganddi ddeg egwyddor gynllunio genedlaethol, ac mae'r weledigaeth a'r egwyddorion mor berthnasol i'r sector camddefnyddio sylweddau ag unrhyw faes arall.

Mae'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn wedi'u nodi o dan y prif ganlyniadau y mae Llywodraeth Cymru eisiau eu cyflawni o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Dengys y tabl isod sut mae pob canlyniad camddefnyddio sylweddau yn cyd-fynd â'r Nod Pedwarplyg yn *Cymru Iachach*. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- NOD PEDWARPLYG 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal
- NOD PEDWARPLYG 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff
- NOD PEDWARPLYG 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol
- NOD PEDWARPLYG 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd

9. Blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn 2019-22

Mae'r camau gweithredu y byddwn ni a'n partneriaid yn eu cymryd yn y cynllun cyflawni hwn yn ymateb i'r hyn a ddywedwyd wrthym drwy'r broses ymgysylltu, ynghyd â'r canfyddiadau o'r gwerthusiad o strategaeth 2008-18 a chanfyddiadau adolygiad AGIC. Mae ychydig o gamau gweithredu blaenoriaethol y credwn fod angen gwneud mwy o waith arnynt er mwyn gwneud cynnydd parhaus ar gyfer y rhai hynny a effeithir gan gamddefnyddio sylweddau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio ar draws y llywodraeth a gyda'n partneriaid, sy'n cynnwys, yn benodol, y Byrddau Cynllunio Ardal a'n darparwyr trydydd sector, sy'n rhan allweddol o ddarparu cymorth rheng flaen i unigolion.

Thema gref yn adolygiad AGIC ac yn y dadansoddiad cyfraniad, yn ogystal ag yn ystod ein proses ymgysylltu ein hunain, oedd y broblem o ran "gwarth" a wynebier gan unigolion yr

effeithir arnynt gan y defnydd o gyffuriau neu alcohol. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau ac urddas unigolion sy'n defnyddio **pob** gwasanaeth, waeth beth yw eu hamgylchiadau, a byddwn yn gweithio i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal ar bob adeg. Mae gwahaniaethu a diffyg parch, i unigolion a'u teuluoedd, yn debygol o olygu y bydd llai o bobl yn defnyddio ac yn ymgysylltu â gwasanaethau ac yn rhwystro i wella canlyniadau.

Cynigir cymryd camau gweithredu yn y meysydd blaenoriaethol canlynol:

- Ymateb i **broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd**, sy'n gyffredin wrth gamddefnyddio sylweddau. Drwy'r Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd, mae canllawiau'n bodoli i drin y problemau hyn ac, yn gyffredinol, ni ddylai problem camddefnyddio sylweddau fod yn rheswm dros wrthod i'r defnyddiwr gwasanaeth y driniaeth a argymhellir ac a ddarperir fel arfer gan wasanaethau iechyd meddwl. Mae angen gwella hyn fel y gall unigolion â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, yn ogystal â dibyniaethau eraill fel gamblo ac ysmegu, dderbyn cymorth priodol ac amserol. Byddwn yn sicrhau bod y Fframwaith Triniaethau yn cael ei roi ar waith, â'r nod o wella'r cydweithio â gwasanaethau iechyd meddwl a chael cymorth gwell i'r rhai hynny sydd â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd. Byddwn hefyd yn llunio darn manwl o waith er mwyn deall yn well y cyfleoedd i symud ymlaen yn y maes hwn, yn ogystal â'r hyn sy'n ein rhwystro rhag gwneud hynny. Bydd panel arbenigol yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a'r argymhellion a fydd yn deillio ohono.
- **Sicrhau gwaith partneriaeth cryf gyda gwasanaethau tai a digartrefedd** er mwyn datblygu ymhellach y dull amlddisgyblaeth sydd ei angen i gefnogi'r rhai hynny sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Nod Llywodraeth Cymru yw gweithio ar draws pob sector er mwyn atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau bod achosion o'r fath yn anghyffredin ac yn fyrhoedl ac nad ydynt yn digwydd eto. Bydd hyn yn gofyn i wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, adrannau tai, y trydydd sector a, lle bo'n briodol, asiantaethau cyfiawnder weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a'u gofalwyr i wella'r canlyniadau a gyflawnir drwy ymyraethau gwasanaeth. Ymyrraeth allweddol ar gyfer cefnogi'r rhai hynny sydd ar ochr waethaf y sbectwm digartrefedd, ac sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, yw Tai yn Gyntaf. Mae ganddo sylfaen dystiolaeth sefydledig yn rhyngwladol a bydd yn cynnig cyfle i brofi ffyrdd y gellir eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ochr yn ochr â llety er mwyn cefnogi taith rhywun tuag at sobrwydd. Yn ogystal, bydd llawer o bobl sy'n cysgu allan yn defnyddio sylweddau i'w helpu i ymdopi â bywyd ar y strydoedd. Rhaid i wasanaethau sy'n darparu cymorth brys hefyd allu helpu'n gyflym cyn y bydd

achos o ddefnyddio sylweddau dros dro yn mynd yn broblem waeth, gyda bywydau pobl yn dod yn gylchred anniben y gellir cymryd llawer mwy o amser i'w thorri. Mae tai, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn feysydd sy'n rhyngweithio ac yn dibynnu ar ei gilydd yn anorfod o ran gwella'r canlyniadau i unigolion yr effeithir arnynt gan y problemau hyn. Gall problemau sy'n cyd-ddigwydd / diagnosis deuol ei weld yn broblem yn aml, a gall hefyd fod yn ffactor arwyddocaol mewn digwyddiadau difrifol ac anffafriol. Er mwyn rheoli diagnosis deuol yn effeithiol, mae camau gweithredu effeithiol wedi'u cynnwys yn y fersiynau drafft o Gynllun Cyflawni *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22.

- Sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (a CEM Eastwood Park, y carchar i fenywod) wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson ar gyfer y rhai hynny sydd â **phroblemau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai** sy'n seiliedig ar arfer gorau. Byddwn yn gweithio'n agos â'r gwasanaeth carchardai, Byrddau Iechyd Lleol a rhanddeiliaid eraill i gyflawni hyn. Ein nod cyffredinol yw darparu llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru, yn ogystal â chynlluniau rhyddhau er mwyn sicrhau dilyniant gofal. Mae hyn wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol yn y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yng Nghymru, sy'n ceisio gyrru gwelliannau yn iechyd a llesiant y bobl hynny mewn carchardai yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar ystad carchardai – a bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'w ganfyddiadau a'i argymhellion cysylltiedig.
- Cynnig mwy o **gymorth i deuluoedd a gofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau**. Lle mae cymorth ar gael i deuluoedd, nododd y gofalwyr y buddion a ddaeth yn sgil rhannu profiadau mewn grwpiau cymorth cyfoedion ac ennyn mwy o ddealltwriaeth o ddibyniaeth a sut i gynorthwyo'u hanwyliaid. Dywedodd pobl hefyd fod hyn wedi helpu i wella'u perthynas ag aelodau o'r teulu gan eu bod yn deall eu problemau'n well. Fodd bynnag, teimlwyd nad oedd digon o wasanaethau cymorth i deuluoedd ac mae'n bosibl nad yw pobl yn ymwybodol o'r rhai hynny sy'n bodoli. Yn benodol, gwyddom drwy'r gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, fel y nodwyd uchod, fod siawns y bydd plant sy'n cael eu magu mewn cartrefi lle mae camddefnyddio sylweddau'n broblem yn fwy tebygol o gael canlyniadau niweidiol yn ddiweddarach yn eu bywydau. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ein hymdrechion ar sicrhau bod gwasanaethau'n gydgyssylltiedig ac yn effeithiol i deuluoedd sydd "ar ffiniau gofal".

- **Sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio alcohol priodol ac ymatebol ar waith** cyn y daw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 i rym. Mae pryderon wedi'u lleisio ynghylch effaith bosibl isafbris unedau ar yfwyr dibynnol, ac mae angen sicrhau bod gwasanaethau ar waith i'r rhai hynny a allai ofyn am gymorth. Gwnaeth rhai rhanddeiliaid hefyd amlygu'r risg y gallai rhai symud i gyffuriau anghyfreithiol neu sylweddau seicoweithredol newydd o bosibl yn dilyn codi'r isafbris am alcohol. Er yr ystyrir bod y risg hon yn fechan, mae hwn yn rhywbeth rydym yn bwriadu ei fonitro'n agos – ac rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil penodol i edrych ar y broblem a byddwn yn adrodd ar hwn cyn ei weithredu.
- Mae **gwella'r mynediad i wasanaethau a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r driniaeth pan fydd eu hangen arnynt** yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Mae'r amserau aros ar gyfer triniaeth wedi lleihau'n gyson, gyda dros 90% yn dechrau triniaeth o fewn 20 diwrnod yn ystod 2017-18, sydd dros bedwar pwynt canran yn well na'r flwyddyn flaenorol. Byddwn yn gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod mwy o fynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan roi sylw arbennig i ddarparu allgymorth i grwpiau agored i niwed a gwella cysylltiadau â gwasanaethau gofal sylfaenol, yn enwedig meddygon teulu. Gwyddom y gall mynediad fod yn heriol i'r rhai hynny sy'n byw yn ein cymunedau gwledig, a byddwn yn gweithio gyda'r Byrddau Cynllunio Ardal perthnasol i ganolbwyntio ein hymdrechion mewn ardaloedd gwledig i wella hyn, yn benodol trwy allgymorth, integreiddio â gofal sylfaenol a defnyddio technolegau digidol.
- Gan fod pobl yn cyflwyno gyda phroblemau mwy cymhleth, a llawer o'r rhain yn effeithio ar eu gallu i ddal ati â'r driniaeth a gwella, byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull o ymdrin â'r unigolyn cyfan sy'n seiliedig ar gryfderau ac arferion a lywir gan drawma. **Byddwn yn cryfhau ein gwaith amlasiantaeth a'n cynlluniau gofal er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu.** Unwaith y bydd pobl yn cael triniaeth, mae'n bwysig eu bod yn cael y driniaeth gywir, ar yr adeg gywir, ac yn cael dewisiadau. Dylent hefyd allu cael mynediad at wasanaethau triniaeth ar gyfer unrhyw niweidiau eraill sy'n cyd-ddigwydd. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ein dull lleihau niwed, ond mae hefyd yn bwysig nodi y gallai rhai pobl ddewis ymatal rhag cymryd pethau, a byddwn yn sicrhau bod y dewis hwn ar gael. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis cael triniaeth yn eu cymuned ddewisol, ond rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod angen triniaeth breswyl ar rai, yn arbennig y rhai hynny sydd â phroblemau mwy cymhleth, a byddwn yn parhau i sicrhau bod hon ar gael i'r rhai sydd ei hangen, gydag amserau aros byr a, chyn belled â bo'n bosibl, pan fo hon yw'r driniaeth maen nhw ei heisiau.

- **Mynd i'r afael â dibyniaeth ar feddyginiaethau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter.** Cydnabyddir y potensial i fynd yn ddibynnol ar y meddyginiaethau hyn ac i gael problemau diddyfnu mewn perthynas â'r meddyginiaethau hyn - a gall hyn waethygu gydag arferion rhagnodi gwael. Ein polisi yng Nghymru yw mynd ati i bresgripsiynu a gweinyddu pob meddyginiaeth mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn dilyn y dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rydym yn mesur perfformiad mewn meysydd allweddol yn rheolaidd, drwy ddangosyddion presgripsiynu cenedlaethol, gan gynnwys nifer sy'n ymwneud â defnyddio opioidau. Fis Mawrth 2019, cafodd adroddiad Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu - adnabyddiaeth a chefnogaeth*, ei gyhoeddi. Mae hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a ystyriwyd o ran deiseb sy'n ymwneud â dibyniaeth ar feddyginiaethau presgripsiwn. Bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r adroddiad gan y Pwyllgor Deisebau wrth i'n blaenoriaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau gael eu dwyn ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei fod yn bwysig ein bod yn gwahaniaethu rhwng camddefnyddio sylweddau, fel y defnydd niweidiol o sylweddau megis cyffuriau ac alcohol, a dibyniaeth sy'n codi o ddefnyddio meddyginiaethau at ddibenion therapiwtig, p'un a ydynt yn cael eu rhagnodi neu eu prynu. Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deisebau, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi ei ymrwymiad i'r gwahaniaethu hwn.

Nod Allweddol 1: Atal niwed

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 1. Mae pobl yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus er mwyn atal a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwellu iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwellu profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o safle DAN 24/7 fel bod anghenion pob unigolyn, teulu, gofalwr a sefydliad yn cael eu diwallu drwy wneud y defnydd gorau o dechnoleg wrth gael mynediad at wasanaethau. Bydd y safle'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod wedi'i optimeiddio'n llawn i ffonau symudol, bod y fideos sy'n cael eu cynnwys a'r swyddogaethau chwilio yn cael eu gwella, a bod systemau'n cael eu rhoi ar waith i helpu i leihau baich canolfannau galw a lleihau unrhyw alwadau ffôn posibl a gollir. [Ebrill 2021]	Nifer y galwadau ffôn i DAN 24/7 Nifer yr ymweliadau â gwefan DAN 24/7.org FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru, DAN 24/7, Byrddau Cynllunio Ardal
ii) O ran ymwybyddiaeth o wasanaethau camddefnyddio sylweddau, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal a gwasanaeth DAN 24/7 i sicrhau bod gwasanaethau ledled Cymru'n cael eu mapio, fel bod unigolion, teuluoedd a gofalwyr yn ymwybodol o le i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ac o le i gael help a chefnogaeth. [Ebrill 2021]	Rhagamcan o ba mor aml mae yna broblem defnyddio cyffuriau (diffiniad Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop) FFYNHONNELL: Iechyd Cyhoeddus Cymru	Llywodraeth Cymru, DAN 24/7, Byrddau Cynllunio Ardal
iii) Parhau i godi ymwybyddiaeth o agweddau amrywiol camddefnyddio sylweddau ar draws y boblogaeth, yn enwedig pan fydd problemau penodol yn codi. Yn benodol, bydd ffocws	% y nodwyd sy'n yfed mwy na chanllawiau yfed risg isel Prif Swyddogion Meddygol y DU	Llywodraeth Cymru

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
parhaus ar godi ymwybyddiaeth o nodau iechyd cyhoeddus a buddion cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol. [Parhaus] iv) Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd [IPEDs]. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant ar leihau niwed er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio neu mewn perygl o ddefnyddio IPEDs yn gwbl ymwybodol o'r risgiau a niweidiau. Fel rhan o'r gwaith, byddwn yn cydweithio'n agos â lechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y gymuned a'r sector chwaraeon elít yn gwbl ymwybodol o'r wybodaeth hon hefyd. [Parhaus] v) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i ystyried argymhellion yr adolygiad o'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSLCP) ac, yn benodol, sut bydd y rhaglen yn ategu'r gwaith sydd wedi'i wneud ar ddiwygio'r cwricwlwm. [Rhagfyr 2019] vi) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i ystyried argymhellion yr adolygiad o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a sut y gall ategu ac ychwanegu gwerth i'r gwaith sydd ar droed, drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Cyd ar Ddull Ysgol Gyfan, i wella llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr. [Parhaus] vii) Cynnal adolygiad tystiolaeth i bennu'r cysylltiadau rhwng camddefnyddio sylweddau, yfed alcohol a gamblo. [Rhagfyr 2020] viii) Bydd Llywodraeth Cymru, drwy weithio â phartneriaid, yn mynd ati gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o'r niweidiau sy'n gysylltiedig ag yfed lefelau peryglus o alcohol, yn ogystal â darparu cyngor clir ar reoli faint o alcohol a yfir. [Parhaus]	2016 bob wythnos (yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol) % a nodwyd sy'n yfed ar lefelau cymedrol, peryglus a niweidiol % a nodwyd sy'n yfed mwy na chanllawiau yfed risg isel Prif Swyddogion Meddygol y DU 2016, sy'n nodi, i ddynion a menywod, 'Ei bod hi'n fwy diogel peidio ag yfed mwy na 14 uned yr wythnos yn rheolaidd, er mwyn cadw'r risgiau iechyd o yfed alcohol yn isel' % a nodwyd sy'n yfed ar lefelau cymedrol, peryglus a niweidiol FFYNHONNELL: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru, yr heddlu Llywodraeth Cymru, yr heddlu Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 2. Mae materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn cael eu canfod yn gynnar ac eir i'r afael â hwy yn gynnar. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwellu iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwellu profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda meddygon teulu a chyrff cynrychiadol i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) i annog meddygon teulu (a gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill) i ymgymryd â Rhan 1 a Rhan 2 o dystysgrifau camddefnyddio sylweddau Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ac i arbenigo mewn camddefnyddio sylweddau. [Parhaus] ii) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod gan bob lleoliad gofal sylfaenol lwybrau atgyfeirio uniongyrchol i wasanaethau asesu camddefnyddio sylweddau. [Mawrth 2021] iii) Dylai pob Bwrdd Cynllunio Ardal ystyried sut mae gwaith allgymorth rhagweithiol yn cael ei wneud yn ei ardal er mwyn targedu grwpiau anodd eu cyrraedd na allai fod yn defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. [Mawrth 2020]	Nifer yr asesiadau newydd i wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ôl y tri sylwedd a adroddir amlaf FFYNHONNELL: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) Nifer yr unigolion newydd mewn cyswllt â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau FFYNHONNELL: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) Nifer y meddygon teulu â diddordeb arbennig mewn	Llywodraeth Cymru, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Llywodraeth Cymru Byrddau Cynllunio Ardal

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
iv) Gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyhoeddi'r Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol, ac yna rhoi'r canfyddiadau ar waith gyda'r nod o sicrhau diagnosis amserol ac atgyfeirio, drwy lwybrau gofal eglur, i asesiad, triniaeth a gwasanaethau adfer arbenigol gyda chymorth prif glinigydd dynodedig ar gyfer niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol o fewn pob ardal bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. [Mawrth 2020]	camddefnyddio sylweddau sydd wedi'u cofrestru a'u hyfforddi hyd at Lefel 2 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol FFYNHONNELL: Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru Nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddi ac sy'n defnyddio 'ymyriadau cyflym' FFYNHONNELL: Iechyd Cyhoeddus Cymru	Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 3. Mae iechyd corfforol a meddwl a lles cyffredinol pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cael eu gwella ac mae anghydraddoldebau iechyd cysylltiedig yn cael eu lleihau i'r eithaf. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Sicrhau bod y Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd yn cael ei gyflenwi, gyda'r nod o wella'r cydweithio â gwasanaethau iechyd meddwl a chael cymorth gwell i'r rhai hynny sydd â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd. Yn ogystal â hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad manwl o'r llwybrau i unigolyn â phroblem sy'n cyd-ddigwydd, a bydd hwn yn cynnwys edrych ar y rhwystrau a'r arferion da ar waith ar y maes hwn. Byddwn yn cynnwys ymarferwyr a chlinigwyr i helpu i yrru'r agenda hon ymlaen. [Chwefror 2020] ii) Sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir i gefnogi achosion sy'n cyd-ddigwydd yn cyd-fynd â gwasanaethau tai a	Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau – sy'n cynnwys cyffuriau anghyfreithiol yn unig FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Nifer y marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau – sy'n cynnwys cyffuriau cyfreithiol ac anghyfreithiol FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
digartrefedd ac yn cydweithio â'r meysydd hyn. [Chwefror 2021] iii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb â nodweddion gwarchodedig. [Parhaus] iv) Bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am dystiolaeth o wasanaethau pontio priodol i bobl ifanc sy'n cyrraedd y trothwy cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau. [Mawrth 2020] v) Ceisio cydleoli gwasanaethau gyda thimau digartrefedd awdurdodau lleol pan fo'n briodol, er mwyn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn i'r rhai hynny sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. [Parhaus] vi) Er mwyn mabwysiadu dull gweithredu ataliol, datblygu protocolau gyda landlordiaid tai cymdeithasol a'r sector preifat er mwyn helpu i adnabod tenantiaid a allai fod angen gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. [Mawrth 2021] vii) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth carchardai, Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Iechyd Lleol a rhanddeiliaid eraill i gyflawni gwaith a fydd yn ceisio sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (gan gynnwys Eastwood Park hefyd) wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n seiliedig ar arfer gorau. Y nod yw llunio llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio	Nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon sylfaenol a enwyd FFYNHONNELL: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)) Nifer y pecynnau naloxone i fynd adref â nhw a gyflwynwyd i: • Unigolion newydd • Ailddefnyddwyr ar ôl defnyddio FFYNHONNELL: Cronfa Ddata Lleihau Niwed Nifer y marwolaethau penodol i alcohol FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Nifer y derbyniadau i'r ysbyty gydag unrhyw sôn am glefyd penodol i alcohol sylfaenol FFYNHONNELL: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (Cronfa Ddata	Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Awdurdodau Lleol Cyngor Iechyd Cymuned, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Byrddau Iechyd Lleol

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
sylweddau mewn carchardai yng Nghymru – yn ogystal â sicrhau dilyniant gofal yn y gymuned [Mehefin 2020]. viii) Byrddau Cynllunio Ardal a byrddau iechyd i gynnal dadansoddiad o anghenion lleol o ran camddefnyddio neu fod yn ddibynnol ar boenliniaryddion ar bresgripsiwn, er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu drwy glinigwyr a darpariaeth gwasanaeth ehangach os oes angen [Parhaus]. ix) Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal a phartneriaid eraill drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Marwolaethau oherwydd Cyffuriau i roi argymhellion adolygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith (ar ôl y Seminarau Consensus Cyffuriau) gyda'r nod o leihau achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau ac achosion nad ydynt yn angheuol. [Ebrill 2020] x) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu protocol rhannu gwybodaeth cenedlaethol yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). [Rhagfyr 2020] xi) Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi dosbarthiad naloxone ac yn datblygu hwn o fewn y gymuned er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu ac yn cyrraedd cymaint â phosibl o bobl. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fonitro ac adrodd ar ddarpariaeth naloxone i fynd adref â phobl ledled Cymru. [Parhaus ac adroddiadau blynyddol] xii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i bennu'r angen am Nyxoid (naloxone drwy'r trwyn). Pan nodir angen, gweithio gydag ardaloedd i weithredu Nyxoid gyda gofalwyr a	Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)) Nifer y derbyniadau i'r ysbyty gyda chyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol (diffiniad eang a chul) FFYNHONNELL: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)) Rhagamcan o ba mor aml mae achosion o hepatitis C, haint hepatitis B ac HIV ymhlith pobl sy'n chwistrelli cyffuriau sydd mewn cyswllt â gwasanaethau arbenigol FFYNHONNELL: Heb ei chysylltu	Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Iechyd Lleol Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Iechyd Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
gwasanaethau ar ymylon camddefnyddio sylweddau (fel swyddogion yr heddlu). [Parhaus] xiii) Byrddau Cynllunio Ardal i barhau i ddatblygu, cefnogi a monitro'r ddarpariaeth o nodwyddau a chwistrelli er mwyn sicrhau bod digon ar gael a'u bod yn hawdd eu cael, gyda lefelau priodol o gyngor ar leihau niwed. [Parhaus] xiv) Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ar waith, gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd hirdymor a phenodol sy'n ymwneud ag effeithiau yfed gormod o alcohol yng Nghymru. [Parhaus] xv) Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o lefel isafbris uned o alcohol, ddwy flynedd ar ôl ei roi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, a fydd yn cynnwys canolbwyntio ar effeithiau isafbris uned ar fanwerthwyr, yn ogystal ag ar yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol. Bydd adroddiadau llinell sylfaen ar gyfer y gwerthusiad yn llywio'r adolygiad o lefel yr isafbris uned. xvi) Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Byrddau Cynllunio Ardal i nodi a rheoli unrhyw effaith bosibl isafbris uned ar wasanaethau. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio ar draws amrediad o feysydd polisi i nodi cyfleoedd i liniaru canlyniadau anfwriadol posibl cyflwyno isafbris uned am alcohol sydd wedi'u hamlygu gan randdeiliaid. [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
xvii) Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal i ystyried ehangu gwasanaethau nyrsys cyswllt alcohol ac i ystyried y dystiolaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau allgymorth grymusol alcohol yng Nghymru. [Ebrill 2020] xviii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i weithredu profion optio allan rheolaidd (profi smotyn gwaed sych a thynnu gwaed) ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed (hepatitis B, hepatitis C ac HIV) a brechiad hepatitis B i bawb sydd mewn cyswllt â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys gwasanaethau trothwy isel a darparwyr fferyllol cymunedol a charchardai. [Mawrth 2020] xix) O 2019 ymlaen, byddwn yn cyflwyno mesur perfformiad allweddol ar gyfer profi am firysau a gludir yn y gwaed, er mwyn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i darged diddymu Sefydliad Iechyd y Byd. Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan grŵp gorchwyl a gorffen cenedlaethol o ymarferwyr a chlinigwyr. [Rhagfyr 2019] xx) Byddwn yn gweithio gyda GambleAware er mwyn sicrhau cysylltiadau agos rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chymorth i gamblwyr â phroblem. [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Iechyd Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Iechyd Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru, GambleAware

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 4. Mae gan bobl sydd â phroblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau y sgiliau, y gwydnwch a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i sicrhau a chynnal annibyniaeth economaidd ac mae effaith negyddol camddefnyddio sylweddau ar economi Cymru yn cael ei lleihau i'r eithaf <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir yn sgil ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesi, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwellu profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Byddwn yn ceisio diogelu mwy o gyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ehangu'r Gwasanaeth Mentora Cyfoedion Di-waith tan fis Awst 2022 a chefnogi 5,000 mwy o bobl. ii) Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau gwerthusiad annibynnol o'r gwasanaeth er mwyn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y gefnogaeth yn y maes hwn. [Ebrill 2020] iii) Byddwn yn gweithio gyda gwasanaeth cynghori Cymru'n Gweithio i sicrhau cysylltiadau agos rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chymorth gwaith. iv) Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau bod pobl sydd angen triniaeth cyn y gallant ddechrau chwilio am waith yn cael eu hatgyfeirio'n briodol. v) Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli mewn amgylcheddau gwarchodol (er mwyn caniatáu i'r rhai hynny ar ddechrau eu taith camddefnyddio sylweddau gymryd rhan, a hwythau ond yn gallu mynd a dod o brosiectau ar y cyfnod cynnar hwn. [Parhaus]	Nifer y bobl sy'n cofrestru gyda'r Gwasanaeth Mentora Cyfoedion Di-waith FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru Nifer y bobl a enillodd gymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith ar ôl gadael FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru Nifer y bobl a aeth i mewn i gyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, ar ôl gadael FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru Nifer y bobl a aeth ati i chwilio am waith ar ôl gadael FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru, Cymru'n Gweithio Llywodraeth Cymru, Canolfan Byd Gwaith Llywodraeth Cymru

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
	Nifer y bobl a gynyddodd eu cyflogadwyedd drwy gwblhau profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru Nifer y bobl mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru Nifer y bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb salwch FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	
Canlyniad 5. Mae pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn ddiwylliannol a chymdeithasol gan gynnwys y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Pob Bwrdd Cynllunio Ardal i ystyried sut y gall cysylltiadau â phrosiectau cymunedol, gweithgareddau dargyfeiriol a gweithgareddau chwaraeon, a mynediad atynt, fod â rhan yn iechyd a llesiant y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Fel rhan o hyn, y Byrddau i ystyried sut y gallant ymgysylltu â'r sector chwaraeon. [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 6. Mae pawb yr effeithir arnynt gan faterion camddefnyddio sylweddau yn cael ei drin gydag urddas, tegwch a pharch. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda grwpiau cymunedol a'r cyfryngau lleol i gefnogi pobl â phrofiad uniongyrchol o wella i godi ymwybyddiaeth o adferiad, er mwyn lleihau'r safbwyntiau negyddol am bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau. [Parhaus] ii) Byrddau Cynllunio Ardal a Llywodraeth Cymru i weithio gyda swyddfeydd cyswllt y Lluoedd Arfog a sefydliadau elusenol milwrol i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i gyn-filwyr ac i ddiwallu eu hanghenion, gan gynnwys y rhai hynny sydd â chyflyrau sy'n cyddigwydd. [Mawrth 2021]		Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 7. Mae pawb yr effeithir arnynt gan faterion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn gallu cael gafael ar wasanaethau o safon sy'n amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ddiogel ac yn effeithiol. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Fel rhan o'r gwaith o adolygu sut caiff gwasanaethau eu comisiynu, dylai Byrddau Cynllunio Ardal sicrhau bod gwasanaethau yn gweithio'n fwy hyblyg, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol, ac yn ystyried darpariaeth ar benwythnos. [Parhaus] ii) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod eu gwasanaethau'n ymatebol i'r tueddiadau mewn data, yn enwedig o ran marwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau priodol ar waith. [Parhaus] iii) Gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd â'i gilydd a sicrhau mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd lle mae prosiectau arloesi Tai yn Gyntaf ar waith. Dylai hyn fod ar ffurf timau amlddisgyblaeth fel y gall cymorth camddefnyddio sylweddau i bobl sy'n cysgu allan gefnogi nodau ac egwyddorion Tai yn Gyntaf a helpu unigolion i ymdrin â'u dibyniaethau mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i liwio ar sail trawma. [Rhagfyr 2019]	Cyflawni amser aros o 20 diwrnod gwaith neu lai rhwng atgyfeirio a thriniaeth (dangosydd perfformiad allweddol) FFYNHONNELL: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM)	Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
iv) Sicrhau bod amrywiaeth o ddarpariaethau therapi amnewid opiadau ar gael sy'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn ac arferion gorau, fel y'u nodwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ac yn y Llyfr Oren. [Mawrth 2021] v) Byddwn yn gweithio i ddatblygu cynlluniau peilot ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu therapi amnewid opiadau yn yr ardaloedd sydd eu hangen fwyaf, yn seiliedig ar arfer gorau. [Mawrth 2021] vi) Byddwn yn adolygu ein targed ar gyfer amserau aros er mwyn sicrhau ei fod yn arwain at ganlyniadau gwell, ac yn monitro'r cynnydd yn erbyn hwn. [Ebrill 2020]. vii) Byddwn yn disodli'r Fframwaith Triniaethau Preswyl cyfredol ac yn sicrhau bod amrediad o driniaethau preswyl ar gael a bod y mynediad iddynt yn cael ei wella. [Rhagfyr 2019]. viii) Datblygu llwybrau atgyfeirio rhwng timau allgymorth cysgu allan a thimau digartrefedd awdurdodau lleol i unedau adsefydlu preswyl. Dylai hyn gynnwys llwybrau atgyfeirio o brosiectau Tai yn Gyntaf. [Mawrth 2021] ix) Gweithio ar ddatblygu prosesau 'symud ymlaen' i'r rhai hynny sy'n barod i adael unedau adsefydlu preswyl neu garchardai, gydag awdurdodau lleol, landlordiaid tai cymdeithasol a gwasanaethau cymorth tai yn benodol. [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol Llywodraeth Cymru

Nod Allweddol 3: Cefnogi a diogelu teuluoedd

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau perfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 8. Mae allgáu ac arwahanrwydd cymdeithasol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau yn cael eu lleihau i'r eithaf. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal, ac eraill, i sicrhau bod cymorth gwell yn cael ei ddarparu ar gyfer amrediad o grwpiau a hefyd i ganfod sut gellir datblygu'r grwpiau hyn. [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
Canlyniad 9. Mae niweidiau camddefnyddio sylweddau yn cael eu lleihau i blant a theuluoedd. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i>		
i) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda rhaglenni a grwpiau eraill yn y gymuned sy'n darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnal ac atal, e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf. Y nod yw bod atgyfeiriadau amserol a phriodol yn cael eu gwneud i wasanaethau camddefnyddio		Byrddau Cynllunio Ardal

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau perfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
sylweddau a bod ymwybyddiaeth o'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac o le i gael ffynonellau cymorth yn cael ei darparu. [Parhaus] ii) Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael i blant a theuluoedd i roi cymorth iddynt. [Rhagfyr 2020] iii) Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu datblygu gydag ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod staff yn cael eu hyfforddi yn hyn o beth. [Medi 2020] iv) Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau pontio ar gael i bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys problemau sy'n cyd-ddigwydd, a'u teuluoedd. [Medi 2020]		Byrddau Cynllunio Ardal Byrddau Cynllunio Ardal Byrddau Cynllunio Ardal
Canlyniad 10. Mae canlyniadau i blant a theuluoedd ar ffiniau gofal neu mewn gofal yn gwella. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i>		
i) Sicrhau bod systemau ar y cyd ar waith ar gyfer adnabyddiaeth gynnar a chamau gweithredu ataliol i helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd i mewn i ofal o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau. [Mawrth 2021] ii) Darparu gwasanaethau hygyrch ac amserol i rieni â phroblemau camddefnyddio sylweddau fel eu bod yn cael eu helpu i gadw eu huned deuluol gyda'i gilydd drwy reoli'r risg. [Parhaus] iii) Mynd ati ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau o fewn cyrraedd hawdd i gynorthwyo'r plant a phobl ifanc hynny mewn gofal neu ar ffiniau gofal		Byrddau Cynllunio Ardal / Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Byrddau Cynllunio Ardal Byrddau Cynllunio Ardal, awdurdodau lleol

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau perfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
y mae eu bywydau wedi'u heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau. [Parhaus]. iv) Byrddau Cynllunio Ardal a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol i sicrhau mynediad hawdd i bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phrofiad o fod mewn gofal at wasanaethau pontio dynodedig. Dylai lefelau'r gofal a chymorth a gynigir ar yr adeg hon o'u bywydau fod o leiaf yn gyfartal â'r rhai hynny a ddarperir gan wasanaethau plant a phobl ifanc. [Mawrth 2022]		Byrddau Cynllunio Ardal, awdurdodau lleol

Nod Allweddol 4: Mynd i'r afael ag argaeledd a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgarwch gorfodi

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 11. Mae pobl yn fwy diogel / yn teimlo'n fwy diogel mewn cysylltiad â throseddu. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i>		
i) Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r heddlu i osod nodau allweddol o ran lleihau'r argaeledd o gyffuriau anghyfreithlon a sylweddau seicoweithredol newydd a chyhoeddi canlyniadau llwyddiannus, yn enwedig o ran gwaith ar linellau cyffuriau. [Rhagfyr 2020] ii) Cynorthwyo landlordiaid yng Nghymru i nodi a chefnogi gweithgarwch i fynd i'r afael â'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch sy'n ymwneud â gangiau / llinellau cyffuriau. Yn benodol, gweithio gyda phedwar heddlu Cymru i sicrhau bod gwasanaethau yn gwbl ymwybodol o dueddiadau o ran gweithgareddau ac arferion gorau o ran atal ac ymyrryd. [Parhaus] iii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r diwydiant alcohol a phartneriaid eraill i sicrhau bod negeseuon yfed yn ddiogel yn cael eu hyrwyddo mewn safleoedd trwyddedig a mannau gwerthu alcohol. [Parhaus] iv) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda Phartneriaethau Alcohol Cymunedol i ddatblygu mentrau lleol i fynd i'r afael ag yfed dan oedran ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. [Parhaus] v) Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Iechyd Lleol i ddysgu o arferion da fel mannau gweithredu ar alcohol a chanolfannau triniaeth er mwyn helpu i dargedu llecynnau o yfed ac arferion niweidiol. [Parhaus]	Nifer y troseddau cyffuriau a gofnodwyd gan heddluoedd Cymru FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Nifer y troseddau sy'n ymwneud ag alcohol a gofnodwyd gan heddluoedd Cymru FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol, Cyngor Iechyd Cymuned Llywodraeth Cymru, y diwydiant alcohol Llywodraeth Cymru Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Iechyd Lleol

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
vi) Byrddau Cynllunio Ardal a Llywodraeth Cymru i ddysgu a rhannu arferion da o ran lleihau sbwriel sy'n ymwneud â chyffuriau a gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol yn y mannau gwaethaf lleol. [Mawrth 2020]		Byrddau Cynllunio Ardal, Llywodraeth Cymru
Canlyniad 12. Mae pobl sy'n siarad Cymraeg a'u teuluoedd yn gallu cael cymorth ar gyfer problemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i>		
i) Codi ymwybyddiaeth staff ynghylch yr angen i wneud y 'Cynnig Rhagweithiol' (darparu gwasanaeth Cymraeg heb fod defnyddwyr gwasanaethau yn gorfod gofyn amdano) ac annog darparwyr i fynd ati'n rhagweithiol i annog eu gweithlu i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle. Bydd hyn yn cynnwys annog staff i gofrestru a chwblhau'r cyrsiau dysgu Cymraeg Gwaith ar-lein ar gyfer y sector iechyd a gofal a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. [Parhaus] ii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ychwanegu adrannau at Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) er mwyn cofnodi'r gofynion o ran y Gymraeg. [Mawrth 2020]	Nifer sy'n cofrestru ac yn cwblhau cyrsiau dysgu Cymraeg Gwaith FFYNHONNELL: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Nod Allweddol 5: Partneriaethau, y gweithlu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Canlyniad 13. Mae Byrddau Cynllunio Ardal yn barod at y dyfodol. <i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i>		
i) Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal i adolygu strwythurau a chydberthynas y partneriaethau, gan sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd yn dda â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a strwythurau diogelwch cymunedol. [Mawrth 2020]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
ii) Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu fframwaith canlyniadau camddefnyddio sylweddau. [Gorffennaf 2020]		Llywodraeth Cymru
iii) Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwaith i weithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn mynd rhagddo ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn genedlaethol. [Mawrth 2022]		Byrddau Cynllunio Ardal
iv) Llywodraeth Cymru i ystyried opsiynau i gefnogi statws Byrddau Cynllunio Ardal o fewn y dirwedd bartneriaeth leol a rhanbarthol. [Rhagfyr 2020]		Llywodraeth Cymru

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
v) Pob Bwrdd Cynllunio Ardal i sicrhau bod ganddo gynrychiolaeth gref gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar ei fwrdd. [Rhagfyr 2020]		Byrddau Cynllunio Ardal
Canlyniad 14. Mae'r gweithlu camddefnyddio sylweddau yn fedrus ac yn wybodus. Mae hwn yn cyfrannu at: ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i>		
i) Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal i adolygu anghenion datblygu'r gweithlu camddefnyddio sylweddau. [Gorffennaf 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
ii) Paratoi cynllun datblygu gweithlu, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol. [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru
Canlyniad 15. Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei ymwreiddio yn y gwaith o gyflenwi a chynllunio gwasanaethau. Mae hwn yn cyfrannu at: ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i>		
i) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau eu bod yn cynnwys pobl wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
ii) Byddwn yn cefnogi datblygiad Mudiad Defnyddwyr Gwasanaethau Cymru ymhellach er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynrychioli'n briodol yn genedlaethol. [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Mudiad Defnyddwyr Gwasanaethau Cymru (AWSUM)

